



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

16 Rhagfyr 2025

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Polisi Gorfodi Diwygiedig Comisiynydd y Gymraeg

Fel Comisiynydd y Gymraeg, mae'n bleser cyflwyno'r [Polisi Gorfodi](#) diwygiedig hwn i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r polisi yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gyd-reoleiddio, ynghyd â'n ffocws cynyddol ar ddeilliannau rheoleiddio sy'n gosod ein gwaith yng nghyd-destun y nod cenedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd o'r iaith.

Mae bron i ddeng mlynedd ers i'r polisi dderbyn cymeradwyaeth weinidogol am y tro cyntaf. Mae adolygu polisi statudol o'r fath ar ôl cyfnod o'r hyd hwn yn rhesymol ac yn briodol, gan adlewyrchu ein dull o hyrwyddo cydymffurfiaeth drwy gefnogi a chydweithio, ochr yn ochr â chmau gorfodi cadarn lle bo angen.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth yn y farn. Rydym wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i bob un o'r ymatebion a dderbyniwyd, ac mae newidiadau pellach i'r polisi wedi'u seilio'n uniongyrchol ar yr adborth a gafwyd. Credaf fod yr [adroddiad](#) ôl-ymgyngori a gyhoeddwyd yn dystiolaeth o'r ystyriaeth fanwl honno, ac yn dangos sut y mae'r broses wedi arwain at bolisi cadarn a chlir. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gyfrannu.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi [gweithdrefn](#) ar gyfer ymwneud â chwynion ac ymchwiliadau, ynghyd â ffurflen newydd er mwyn hwyluso cyflwyno [cwynion](#). Cyhoeddwyd hefyd [asesiad effaith](#) cydraddoldeb ar y polisi.

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

02/04

Fel Comisiynydd – endid annibynnol o Lywodraeth, sy'n arwain y gwaith o eiriol dros y Gymraeg a gwarchod buddiannau siaradwyr Cymraeg – rwy'n cymryd fy swyddogaeth reoleiddiol o ddifrif. Mae'r swyddogaeth hon yn un amlochrog wrth gwrs: addysgu, cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth, ond hefyd gorfodi lle bo angen. Ein dymuniad yw gweithio gyda sefydliadau drwy ddull ataliol a chydweithredol, er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae angen camau gorfodi.

Er ein prif ffocws yw partneriaeth a chefnogaeth, mae'n hanfodol bod sefydliadau'n deall y byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi pan fo hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwarchod. Pan nad oes sicrwydd na hyder fod dyletswyddau'n cael eu cyflawni, byddwn yn gweithredu'n gadarn gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i ni.

Rwy'n hyderus fod y polisi diwygiedig hwn yn gosod ein hymagwedd allan yn glir. Mawr obeithiaf y caiff y polisi hwn gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru fel y gellir ei roi ar waith heb oedi pellach.

Diolch yn fawr am eich sylw i'r materion pwysig hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

03/04

Rt Hon Mark Drakeford MS
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language
Welsh Government

Via e-mail Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

16 December 2025

Dear Cabinet Secretary,

Revised Enforcement Policy of the Welsh Language Commissioner

As Welsh Language Commissioner, I am pleased to present this revised Enforcement Policy for approval by Welsh Ministers. The [policy](#) reflects our commitment to co-regulation, together with our increasing focus on regulatory outcomes that place our work in the context of the national goal of creating one million Welsh speakers and doubling the use of the language.

It is almost ten years since the policy first received ministerial approval. Reviewing a statutory policy after such a period is both reasonable and appropriate, reflecting our approach of promoting compliance through support and collaboration, alongside firm enforcement action where necessary.

As part of the consultation process, we were aware of a diversity of views. We have given thorough consideration to every response received, and further changes to the policy have been based directly on the feedback provided. I believe the published post-consultation report is evidence of that detailed consideration and demonstrates how the process has led to a robust and clear policy. We are grateful to everyone who took the time to contribute.

We have also published a [procedure](#) for dealing with complaints and investigations, along with a new form to facilitate the submission of [complaints](#). An [equality](#) impact assessment on the policy was also published.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

04/04

As Commissioner – an independent entity from Government, leading the work of advocating for the Welsh language and protecting the interests of Welsh speakers – I take my regulatory role seriously. This role is, of course, multifaceted: educating, supporting and promoting compliance, but also enforcing where necessary. Our aim is to work with organisations through a preventative and collaborative approach, to avoid situations where enforcement action is required.

While our primary focus is partnership and support, it is essential that organisations understand that we will use our enforcement powers when necessary to ensure that the rights of Welsh speakers are protected. Where there is no certainty or confidence that duties are being fulfilled, we will act firmly using all the powers available to us.

I am confident that this revised policy sets out our approach clearly. I very much hope that this policy will receive ministerial approval so that it can be implemented without further delay.

Thank you for your attention to these important matters.

Yours sincerely,

Efa Gruffudd Jones
Welsh Language Commissioner